

Ysgol Llannon School



Annwyl Riant/Gofalwr,

Rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd cyfnod atal byr yn cael ei gyflwyno ledled Cymru o 6 o'r gloch ddydd Gwener 23ain o Hydref tan ddechrau dydd Llun 9fed Tachwedd mewn ymgais i adennill rheolaeth dros y coronafeirws.

Mae angen cymryd y camau hyn am bythefnos i achub bywydau ac atal y GIG rhag cael ei lethu.

Bydd yn golygu bod yn rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn, megis ar gyfer ymarfer corff; a rhaid iddynt beidio ag ymweld ag aelwydydd eraill na chwrdd â phobl eraill nad ydynt yn byw gyda nhw o dan do nac yn yr awyr agored. Ni chaniateir unrhyw gynulladau yn yr awyr agored, megis gweithgareddau Calan Gaeaf neu Noson Tân Gwyllt, neu weithgareddau eraill sydd wedi'u trefnu.

Cadarnhawyd y bydd ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn gallu ailagor fel arfer ar ôl hanner tymor, ddydd Mawrth 3ydd Dachwedd.

Hoffwn roi sicrwydd ichi eto fod ein hysgol yn ddiogel rhag COVID a bod gennym weithdrefnau llym a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

Os bydd achos cadarnhaol o COVID-19, cymerir camau ar unwaith, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r tîm Profi, Orlhain, Diogelu i nodi unrhyw unigolion y gall fod angen iddynt hunan-ynysu ac atal unrhyw drosglwyddo o fewn yr ysgol.

Bydd teuluoedd sy'n cael pryddau ysgol am ddim yn cael cymorth ariannol dros y gwylliau hanner tymor a bydd y Cyngor Sir yn cysylltu â chi dros y dyddiau nesaf ynghylch unrhyw newidiadau i'r manylion a gyflwynwyd gennych yn flaenorol. Yna, gwneir taliadau cyn gynted â phosibl, ond gofynnir i chi fod yn amyneddgar gan y bydd yn cymryd amser i'w prosesu.

Mae gwybodaeth lawn am y cyfnod atal ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin>

Sylweddolaf fod hwn yn gyfnod pryderus i deuluoedd a gwerthfawrogaf eich cydweithrediad yn fawr.

Unwaith eto, diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,
Marie Langabeer